

# Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin Yr Hyn a Gyflawnwyd yn 2016

Mae **Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Gaerfyrddin** yn bartneriaeth o gyrrff sy'n ymwneud â gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd y sir ac fe'i hwylusir gan Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor.

Mae amgylchedd naturiol Cymru yn cynnal amrywiaeth o fywyd gwylt sy'n byw yma. Yn Sir Gaerfyrddin mae'r cynefinoedd yn amrywio o arfordir i fynyddoedd a rhostiroedd a dolydd, ac mae'r rhain i gyd yn cyfrannu i'n profiad o fyw yma a hefyd i economi'r sir, i iechyd a lles ein dinasyddion, i'r ddarpariaeth bwyd, dŵr ac aer glân ac i'n diwylliant lleol.

Yn 2016 roedd yr [Adroddiad ar Sefyllfa Byd Natur Cymru](#) wedi tynnu sylw at y ffaith ein bod yn parhau i gollu bioamrywiaeth, yn ôl pob golwg. Er gwaethaf rhai llwyddiannau yng Nghymru, megis wrth adfer niferoedd y dyfrgwn a'r barcutiaid coch, mae'r colledion o ran bioamrywiaeth a'r dirywiad o ran statws ffafriol llawer o gynefinoedd a safleoedd dynodedig yn mynd rhagddo o hyd, er bod deddfwriaeth a pholisiau Cymreig, Prydeinig a Rhyngwladol ar waith i wrthsefyll hyn.

• Mae amgylchedd naturiol iach yn rhan hanfodol o Sir Gaerfyrddin gynaliadwy, gadarn ac unigryw. Mae gwaith y partneriaid, a'r prosiectau a weithredir ganddynt, yn helpu i gyflawni canlyniadau sy'n cyfrannu i amcanion a chanlyniadau nifer o strategaethau a chynlluniau yn y sir. Mae'r rhain yn cynnwys:

• [Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Sir Gaerfyrddin](#); • [Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Gaerfyrddin](#)

Gall gweithredoedd cyrrff cyhoeddus o fewn y Bartneriaeth gyfrannu i ddarparu deddfwriaeth a strategaethau allweddol sy'n dod o Lywodraeth Cymru ac sy'n deddfu ar gyfer defnyddio adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy er mwyn sicrhau lles Cymru yn y tymor hir.

• [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) - ei nod yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru

[Mae Bil yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016](#) yn rhoi proses ar waith i gynllunio ac i reoli ein hadnoddau naturiol. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyrrff cyhoeddus, wrth arfer eu swyddogaethau, geisio 'cynnal a gwella bioamrywiaeth' o ran arfer y swyddogaethau hynny'n briodol a thrwy wneud hynny, 'hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau'. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn paratoi Blaen-gynllun i ddangos sut y bydd yn ymgorffori'r ddeddfwriaeth hon wrth ddarparu gwasanaethau.

• Y Cynllun Adfer Natur fydd y strategaeth a'r cynllun gweithredu cenedlaethol ar fioamrywiaeth ar gyfer Cymru gan weithio i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru a gwella cadernid ein hecosystemau.


Mae Partneriaethau Bioamrywiaeth Lleol yn allweddol o ran helpu i ddarparu ffocws lleol a chyflawni'r holl amcanion hyn.


Gall pobl leol wneud gwahaniaeth hefyd ac mae gan yr holl bartneriaid rôl i'w chwarae o ran codi ymwybyddiaeth a gweithio gyda chymunedau ar brosiectau sy'n fanteisiol i fioamrywiaeth - gan gynnwys y bobl sy'n cymryd rhan ynddynt!



Crynodeb yw hwn o'r hyn a gyflawnwyd gan y partneriaid yn 2015, yn aml drwy gydweithio i warchod ac i wella'r ystod amrywiol o gynefinoedd a rhywogaethau sydd yn Sir Gaerfyrddin.





Clwb Adar Sir Gaerfyrddin Carmarthenshire Bird Club









						Amcanion Cynllun Adfer Natur Llywodraeth Cymru						
Partner/iaid	Gweithgaredd/Pum ffordd o weithio					Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynefinoedd	Gwynwch	allweddol	Mynd i'r afael â phwysau	Tystiolaeth a monitro	
Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir (WWT)	Fel rhan o brosiect tymor hir i reoli llystyfiant ym Mhenclacwydd (WWT Llanelli) mae coed a phrysglwyni wedi cael eu tocio a'u rheoli gyda chymorth gwirfoddolwyr. Mae hyn wedi cynyddu'r siawns y bydd rhywogaeth fregus y gornchwiglen yn gallu bridio'n llwyddiannus ac y bydd yn parhau i gael ei adfer fel rhywogaeth sy'n bridio ar y safle. Gyda chymorth PONT, ac ers ailgyflwyno gwartheg i bori – heb fod yn rhy ddwys – ar laswelltir corsiog y warchodfa, mae WWT bellach yn bwriadu cyflwyno defaid i bori fel modd o reoli'r llystyfiant yn gynaliadwy ar y tir a gliriwyd yn ddiweddar, a hynny'n hir dymor, law yn llaw â phorwyr lleol.						✓	✓		✓		
	<b>Y Tymor Hir</b>	<b>Atal</b>	<b>Integreiddio</b>	<b>Cydweithio</b>	<b>Cynnwys</b>							
Cyngor Sir Caerfyrddin	Prynwyd 75 erw o dir er mwyn creu cynllun ffordd gyswllt Cross Hands. Mae'r tir na ddefnyddir ar gyfer yr heol, sy'n cynnwys glaswelltiroedd corsiog sy'n addas ar gyfer iâr fach yr haf Britheg y Gors, yn mynd i gael eu diogelu a'u rheoli gan brosiect Caeau'r Mynydd Mawr. Mae PONT (Pori, Natur a Threftadaeth) wedi helpu i ddod o hyd i anifeiliaid i bori'r safle. Diolch i gyllid Glastir llwyddwyd i docio bonion a ffensio wrth berthi, a fydd yn helpu i warchod y clawdd. Mae datblygiadau lu yn digwydd yn ardal Cross Hands ar hyn o bryd. O ganlyniad, mae'r mannau gwyrdd rhwng y datblygiadau yn dod yn fwyfwy pwysig i fywyd gwylt a phobl. Mae Hawl Dramwy Gyhoeddus yn croesi'r safle ac mae'r prosiect yn gweithio gydag adran Hawliau Tramwy CSC i sicrhau bod modd i'r trigolion lleol ddefnyddio'r tir.						✓	✓				
	<b>Y Tymor Hir</b>	<b>Atal</b>	<b>Integreiddio</b>	<b>Cydweithio</b>	<b>Cynnwys</b>							
Coed Cymru	Mae swyddogion Coed Cymru yn parhau i roi help a chyngor ar ystod eang o safleoedd megis coetiroedd a ffermydd, gan gynnwys cefnogi perchnogion tir gyda cheisiadau i gynlluniau Creu Coetiroedd Glastir a Grantiau Bach Glastir. Fel rhan o brosiect ar y cyd â Choed Cadw, mae swyddogion Coed Cymru wedi cynnal arolwg o dros 20 o Safleoedd Planhigfeydd ar Safleoedd Coetir Hynafol, gan gwmpasu dros 110 ha, ac mae adroddiadau'n cael eu paratoi ar gyfer y perchnogion. Argymhellir bod conifferau'n cael eu torri o gwmpas hen goed llydandail brodorol a bod conifferau'n cael eu teneuo er mwyn hybu fflurdyfiant ar y ddaear ac i adfywio coed llydandail. Mae Swyddogion Coed Cymru wedi cyfrannu at brosiectau gwella cynefinoedd ar amryw o safleoedd Cyngor Sir Caerfyrddin gan gynnwys Parc Gwledig Pen-bre, Parc Natur Ynys Dawela ac Ysgol Gynradd y Bynea.					✓	✓	✓	✓			
	<b>Y Tymor Hir</b>	<b>Atal</b>	<b>Integreiddio</b>	<b>Cydweithio</b>	<b>Cynnwys</b>							

					Amcanion Cynllun Adfer Natur Llywodraeth Cymru						
Partner/iaid	Gweithgaredd/Pum ffordd o weithio					Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynefinoedd	Gwynnwch	Mynd i'r afael â phwysau allweddol	Tystiolaeth a monitro	
	Cyngor Sir Caerfyrddin	Diolch i waith caled dros nifer o flynyddoedd mae safle'r Cyngor ym Morfa Berwig yn y Bynea wedi cael ei ddatgan yn Warchodfa Natur Leol. Bydd y rhywogaethau a chynefinoedd pwysig a gynhelir ym Morfa Berwig, megis llygoden y dŵr, ynghyd â'r gwasanaethau a ddarperir bellach yn cael eu diogelu ar gyfer y dyfodol. Mae'r safle'n cynnig tir glas hyfryd a bywyd gwyllt ar garreg drws y cymunedau lleol. Gwnaed gwaith i wella cynefin tir llwyd y safle, sy'n gyforiog o rywogaethau, ynghyd â'r llwybrau troed a'r pontydd. Eleni nododd arolwg fod 299 o rywogaethau di-asgwrn-cefn yno, gan gynnwys peillwyr pwysig.					✓	✓	✓		✓
<b>Y Tymor Hir</b>		<b>Atal</b>	Integreiddio	Cydweithio	<b>Cynnwys</b>						
Cyngor Sir Caerfyrddin/Plantlife	Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi bod yn parhau â'i waith grant a gyllidir gan WREN yng Ngwarchodfa Natur Leol Twyni Pen-bre, gan weithio mewn partneriaeth â Plantlife. Bellach mae'r blaen-dwyni'n rhydd rhag y planhigyn ymledol Rhafnwydden y Môr yn Nhwyni Pen-bre a Pharc Gwledig Pen-bre, a bydd y cymysgedd cynyddol o lecynnau tywodlyd noeth a llystyfiant yn ffafrïol i lu o blanhigion, ymlusgiaid ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn prin. Wrth adfer y twyni agored diogelir cynefin o bwys rhyngwladol.						✓	✓	✓	✓	
	<b>Y Tymor Hir</b>	<b>Atal</b>	Integreiddio	<b>Cydweithio</b>	Cynnwys						
Pori, Natur a Threftadaeth	Sefydliad pori er budd cadwraeth yng Nghymru yw PONT (Pori, Natur a Threftadaeth). Yn ystod 2016 mae PONT wedi bod yn rhoi cyngor ynghylch pori er budd cadwraeth ac wedi dod o hyd i anifeiliaid i bori safleoedd yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r safleoedd yn cynnwys WWT Llanelli, Gwarchodfa Natur Leol Morfa Berwig, Gwarchodfa Natur Genedlaethol Carmel, safleoedd Brithegion y Gors o amgylch Cross Hands a thir preifat ledled y sir. Drwy bori priodol sicrheir bod y cynefinoedd yn fwy gwydn ac yn peri llai o berygl o ran tân, a bydd y mynediad atynt yn well a bydd rhagor o fioamrywiaeth. Cynhaliodd PONT gwrs a achredir gan LANTRA ar archwilio stoc, a hynny yn WWT Llanelli. Mae archwilwyr stoc yn hwyluso pori er budd cadwraeth ar safleoedd diarffordd oherwydd eu bod yn tynnu peth pwysau oddi ar borwyr.					✓	✓	✓			
	<b>Y Tymor Hir</b>	<b>Atal</b>	Integreiddio	<b>Cydweithio</b>	<b>Cynnwys</b>						

					Amcanion Cynllun Adfer Natur Llywodraeth Cymru						
Partner/iaid	Gweithgaredd/Pum ffordd o weithio					Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynefinoedd	Gwytwnwch	Mynyd i'r afrael a phwysau allweddol	Tystiolaeth a monitro	
Cyngor Sir Gaerfyrddin /MWBC	Prosiect Rheoli Adnoddau Naturiol, a gyllidir gan Gyfoeth Naturiol Cymru: Ym mlwyddyn 2 y grant hwn rydym wedi parhau i weithio gyda'r gymuned yng Nglanyfferi, lle mae ganddynt Fforwm Amgylcheddol. Mae Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru wedi creu map ar-lein sy'n dangos pedwar categori o adnoddau naturiol ar gyfer 85km <sup>2</sup> o dir o gwmpas Glanyfferi, gyda dolen hefyd i wefan y Fforwm Cymunedol. Cynhaliwyd sesiwn cofnodi bywyd gwylt i ddechreuwyd, ar gyfer y grŵp, gyda chyfraniadau arbenigol gan Gofnodwyr Planhigion y Sir. Bydd adnoddau ar-lein y Gwasanaeth Gwybodaeth yn galluogi pobl i gofnodi rhywogaethau, i ddarparu mynediad i'r cofnodion ac i wybodaeth am adnoddau naturiol, gan ychwanegu at ddealltwriaeth pobl o'r hyn sydd o'u hamgylch.					✓				✓	
	Y Tymor Hir	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys						
Cyngor Sir Gaerfyrddin	Prosiect Rheoli Adnoddau Naturiol, a gyllidir gan Gyfoeth Naturiol Cymru: Mae'r ysgol gynradd yn y Bynea yn tueddu i ddiodeff llifogydd ar ôl cyfnodau o law trwm iawn a gwelwyd y byddai plannu coed ar y cae sy'n goleddu uwchlaw'r ysgol yn fodd i helpu'r dŵr i ymdreiddio i'r tir ac i leihau llif ar y wyneb. Bydd hyn yn cynnig enghraifft ymarferol o reoli adnoddau naturiol a gwasanaethau ecosystemau ar gyfer y plant a'r gymuned ehangach. Bydd saith gant o goed a llwyni brodorol yn cael eu plannu yno gan blant a chontractwyr lleol ym mis Ionawr.					✓	✓	✓	✓		
	Y Tymor Hir	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys						
BBCT	Mae'r Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn wedi bod yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin ar brosiect a gyllidir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri o'r enw 'Bee Wild West Wales'. Nod y prosiect yw cael pobl i gyfrannu at helpu cacwn bŵm. Caiff pobl eu hannog i fynd mas i gofnodi a monitro cacwn bŵm er mwyn inni ddeall mwy am eu sefyllfa bresennol. Trefnir digwyddiadau hyfforddi ynglŷn ag adnabod cacwn bŵm, diwrnodau arolwg, teithiau cerdded a sgysiau. 'Buzzing Communities' - bydd yn cynnwys gweithio â dwy gymuned yn Sir Gaerfyrddin i sicrhau bod eu manau gwyrdd lleol yn fwy cyfeillgar i gacwn. Yn 2016 roedd yr Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno teithiau cerdded a sgysiau yn y sir ar y grŵp pwysig hwn o beillwyr. Mae eu partneriaid yn cynnwys: Cyngor Sir Gaerfyrddin, Cadwch Gymru'n Daclus, Cymdeithas Trigolion Parc Dŵr y Sandy, Naturiaethwyr Llanelli, Cyngor Cymuned Llannon, yr Ardd Fotaneg Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol - a llawer mwy!					✓	✓	✓	✓	✓	
	Y Tymor Hir	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys						



		Amcanion Cynllun Adfer Natur Llywodraeth Cymru										
Partner/iaid	Gweithgaredd/Pum ffordd o weithio					Ymgysylltu	Rhywogaethau a chynefinoedd	Gwynnwch	allweddol	Mynid i'r afrael a phwysau	Tystiolaeth a monitro	
Prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru	<p>Bu dros 70 o wirfoddolwyr yn helpu Prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru yn ystod 2016. Mae'r cynnydd o ran nifer y gwiwerod coch a welwyd yng nghanolbarth Cymru, a'u cwmpas daearyddol, yn dynodi bod cynnydd wedi bod yn eu poblogaeth yn ôl pob golwg. Ar y llaw arall, mae nifer y gwiwerod llwyd a welwyd gan aelodau'r Cynllun Benthycia Trapiau wedi lleihau yn y Safle Craidd eleni. Mae datblygu partneriaethau rhwng Prosiect Gwiwerod Coch Canolbarth Cymru, rheolwyr coedwigoedd, grwpiau eraill ym Mhrydain sy'n gwarchod gwiwerod coch a mudiadau lleol wedi helpu i wella effaith yr ymdrechion cadwraeth. Eleni, diolch i gyllid a gafwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri drwy gyfrwng prosiect ledled-Prydain 'Red Squirrels United', crëwyd swydd newydd ar gyfer Swyddog Rheoli Gwiwerod Llwyd. Bydd y swyddog yn cydweithio â'r Swyddog Gwiwerod Coch i ganolbwyntio ar reoli cynefinoedd ac ar waith allgymorth/addysg.</p>					✓	✓	✓	✓	✓		
	<b>Y Tymor Hir</b>	<b>Atal</b>	<b>Integreiddio</b>	<b>Cydweithio</b>	<b>Cynnwys</b>							
Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru	<p>Y gaeaf diwethaf parhaodd Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru â'r gwaith o adfer y gors yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Carmel. Roedd ardal y gyforgors mewn cyflwr gwael o ganlyniad i dorri mawn yn y gorffennol a thorri ffosydd draenio. Ers 2013 mae'r Ymddiriedolaeth wedi defnyddio pedwar o ferlod y Carneddau i bori'r gors ym misoedd yr haf ac mae hyn wedi bod o gymorth i glirio llwyni ac i wella cyflwr y cynefin. Diwrnod gwaith i wirfoddolwyr er mwyn cau'r ffosydd drwy yrru pyst i mewn iddyn nhw gan ddefnyddio gordd rwber - mae'r pyst wedi atal llawer iawn o ddŵr rhag arllwys o'r fawnog ac wedi helpu'r fawnog i storio dŵr ac i barhau i greu mawn gwerthfawr drwy gynyddu faint o figwyn a geir yn y gors.</p>					✓	✓	✓	✓			
	<b>Y Tymor Hir</b>	<b>Atal</b>	<b>Integreiddio</b>	<b>Cydweithio</b>	<b>Cynnwys</b>							
CCC/ NBGW/ Swansea Uni/ Dyfed Archaeological Trust	<p>Mae Prosiect Corsydd Sir Gaerfyrddin, a gyllidir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, yn ymchwilio i hanes mawnogydd ac yn dathlu pwysigrwydd y cynefinoedd hyn. Yn 2016 bu ysgolion lleol ar ymweliad ag un safle i ddysgu am y dirwedd gynhanesyddol, am y bobl oedd yn byw yno ac am ecoleg mawnogydd. Bu darparwyr twristiaeth ar ymweliad â'r safleoedd i weld sut y gallan nhw hyrwyddo'r safleoedd i ymwelwyr. Mae Prifysgol Abertawe yn dadansoddi craidd mawn o un o'r mawnogydd ac mae dull dyddio radio-carbon wedi dangos bod y mawn wedi dechrau ffurfio 9700 o flynyddoedd yn ôl! Bydd rhagor o waith ymchwil yn helpu i ddarganfod y newidiadau amgylcheddol a fu yn Sir Gaerfyrddin dros y 10,000 o flynyddoedd diwethaf. Y gobaith yw y bydd modd gwella gwynnwch y cynefinoedd hyn ac ailgyflwyno cynllun pori priodol.</p>					✓	✓	✓	✓	✓		
	<b>Y Tymor Hir</b>	<b>Atal</b>	<b>Integreiddio</b>	<b>Cydweithio</b>	<b>Cynnwys</b>							

Partner/iaid	Gweithgaredd/Pum ffordd o weithio					Amcanion Cynllun Adfer Natur Llywodraeth Cymru					
	Y Tymor Hir	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys	Ymgysylltu	Rhywogaethau a chrynefinoedd	Gwytnwch	Mynd i'r afael â phwysau allweddol	Tystiolaeth a monitro	
Cyngor Sir Gaerfyrddin /Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru	<p>Bu Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, gwirfoddolwyr, a pharcmyrn y Cyngor yn gweithio gyda'i gilydd ym Mharc Natur Ynys Dawela (Brynaman) i reoli'r dolydd yno. Mae'n llecyn pwysig i fywyd gwylt, gan gynnwys iâr fach yr haf Britheg y Gors a phathewod. Diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru torrwyd porfa'r dolydd ac mae'r prysglwyni oedd yn gordyfu ar ymylon y dolydd wedi cael eu tocio. Bydd y rheolaeth sensitif hon yn helpu'r dolydd hyn i flodeuo, gan eu bod yn gyforiog o flodau. Mae'n bwysig cynnal y glaswelltiroedd hyn, sy'n naturiol o wlyb, am eu bod yn amsugno dŵr glaw fel sbwng ac yn ei ryddhau'n raddol i nentydd ac afonydd. Defnyddir y parc yn gyson gan gerddwyr cŵn, rhedwyr a theuluoedd a dylai'r gwaith a wneir i wella rhai o'r llwybrau yn ystod y gaeaf hwn helpu i sicrhau fod pobl yn gallu parhau i elwa ar y safle hyfryd ac arbennig hwn.</p>					✓	✓	✓	✓	✓	
	Y Tymor Hir	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys						
Cyngor Sir Gaerfyrddin	<p><a href="#">Mae Bil yr Amgylchedd (Cymru) 2016</a> yn rhoi proses ar waith i gynllunio ac i reoli ein hadnoddau naturiol. Mae hyn yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r holl gyrff cyhoeddus, wrth iddynt arfer eu swyddogaethau, geisio 'cynnal a gwella bioamrywiaeth pan fo hynny'n rhan o'u swyddogaethau cymwys a cheisio hyrwyddo gwytnwch ecosystemau'. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn paratol Blaen-gynllun i ddangos sut y bydd yn ymgorffori'r ddeddfwriaeth hon wrth ddarparu gwasanaethau. Cynhelir gweithdai gyda swyddogion ledled y Cyngor i weld beth sy'n digwydd eisoes i fodloni gofynion y ddeddfwriaeth a beth arall y dylai'r Cyngor fod yn ei wneud i wreiddio'r ddeddfwriaeth yn ei arferion gwaith.</p>					✓	✓	✓	✓		
	Y Tymor Hir	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys						
Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin	<p>Eleni mae <a href="#">Grŵp Dolydd Sir Gaerfyrddin</a> wedi mynd o nerth i nerth a daeth oddeutu 60 o berchnogion dolydd i'r cyfarfod diwethaf. Mae'r grŵp bellach yn bwriadu ffurfioli ei hun ac mae wrthi'n trefnu teithiau cerdded, sgysiau a digwyddiadau hyfforddiant ar gyfer 2017. Roedd y sawl a fynychodd y cyfarfodydd wedi croesawu'r cyfle i gwrdd â pherchnogion dolydd eraill ac i rannu profiadau. Bellach mae grŵp o wirfoddolwyr yn gweithio gyda'i gilydd i greu cymuned o berchnogion tir ledled y sir sy'n helpu ei gilydd i wella amrywiaeth y planhigion, ffyngau ac anifeiliaid a geir ar ddolydd mawr a bach ar draws Sir Gaerfyrddin.</p>					✓	✓	✓	✓	✓	
	Y Tymor Hir	Atal	Integreiddio	Cydweithio	Cynnwys						